

# Cynnig Cyfrannau

**Ymaelodwch â  
Grannell Community Energy  
a byddwch yn gyd-berchennog ar  
dyrbin gwynt yng Ngheredigion**

**Lansio'r cyfrannau: 1 Mehefin 2018  
Targed cyfrannau: £700,000**



**Mae Grannell Community Energy yn  
Gymdeithas Budd Cymunedol,  
wedi'i chofrestru gyda'r Awdurdod  
Ymddygiad Ariannol rhif 7447**

# Cynnwys

- 1 Neges gan Gyfarwyddwyr  
Grannell Community Energy**
- 2 Crynodeb**
- 3 Ein cymuned**
- 4 Buddion i'r gymuned**
- 5 Y gymdeithas**
- 5 Ymaelodi â'r gymdeithas**
- 6 Y bwrdd sefydlu**
- 8 Y model busnes**
- 11 Ariannol**
- 14 Cynnig cyfrannau**
- 17 Amserlen**
- 18 Risgiau**
- 20 Ffurflen gais**
- 21 Ein partneriaid**

# Neges gan Gyfarwyddwyr Grannell Community Energy

Mae'n bleser mawr gennym rannu'r ddogfen hon gyda chi. Dyma ffrwyth tair blynedd o waith caled yn sgil cymorth sylweddol gan amrywiaeth helaeth o bobl a sefydliadau. Erbyn hyn, rydym wedi cyrraedd y man lle gofynnwn i aelodau o'n cymuned, pobl leol yn ogystal â phobl â diddordeb mewn ynni adnewyddadwy, ymuno yn y prosiect hwn gyda ni. Mae rhannu'n rhan bwysig o'r profiad dynol, mae'n naturiol, a hynny sy'n helpu cymuned i ffynnu.

Yn y ddogfen hon, cewch wybod yn union sut allwch chi hefyd ymaelodi â Grannell Community Energy. Gobeithiwn yn ddiffuant y byddwch yn ymuno. Bydd yn dangos eich bod yn ymboeni am y blaned, am eich plant a'ch wyrion, ac am gryfhau un gymuned leol fechan yng Ngorllewin Cymru a fydd yn elwa ar y prosiect hwn. Rydym yn rhagweld cynnig adenillion o 5% i'w gwneud yn bosibl ichi fuddsoddi eich arian gyda ni am rai blynnyddoedd.

Hoffem ddiolch i'r canlynol am ein helpu i gyrraedd y man hwn. Yn gyntaf oll, y teulu Evans, sef Dai, Ann a Barry, am eu hamynedd aruthrol. Yna, ein cynhalwyr dibynadwy cyson, Andy, Paul, Miles, Geraint, Stephen, Gareth, Steve, Jeremy a thîm Sharenergy. Hoffem ddiolch hefyd i'n teuluoedd ein hunain sydd wedi goddef ein habsenoldeb a'n pyliau achlysurol o rwystredigaeth a gorfoledd wrth inni wirfoddoli ein hamser a'n hegri i sicrhau bod yr un tyrbin hwn yn digwydd!

Nid llyfn bob tro mo llwybr llwyddiant, ond mae pen draw'r llwybr hwn mewn golwg ac ymfalchiwn yn haeddiannol yn ein cyflawniad. Rydym am rannu gyda chi'r ymdeimlad hwn o falchder, sef ein bod oll wedi ymdrechu cymaint i greu prosiect gwerth chweil, y credwn y gall y gymuned gyfan ymfalchio ynddo.

Edrychwn ymlaen at eich croesawu chi'n aelodau.

Mae'r ddogfen gynnig hon yn disodli'r ddogfen flaenorol, ac yn ymestyn y dyddiad cau i 14 Rhagfyr 2018. Mae'r dyddiad yma yn dal i roi digon o amser i adeiladu'r tyrbin cyn ein dyddiad cau ar gyfer FIT yn Rhagfyr 2019, ond rydym nawr yn bwriadu cynnal yr adeiladu yng ngwanwyn 2019 yn hytrach nag yn yr hydref 2018. Mae ein hamcanestyniadau yn parhau i fod yr un peth, y prif newid yw bod gennym sicrwydd nawr gan Gyngor Sir Ceredigion y byddwn yn gymwys i gael rhyddhad ardrethi busnes, sy'n golygu y gallwn barhau i ddychwelyd 5% o fudd-dal i gyfranddeiliaid er bod comisiynu bellach ychydig yn hwyrach. Dyma'r cyfle olaf i ni nawr godi'r arian sydd ei angen i godi'r tyrbin, bydd yn arbed dros 600 tonnell o garbon deuocsid bob blwyddyn, felly cofiwch rannu gyda'ch ffrindiau a'ch perthnasau, a gobeithiwn y byddwch chi'n dewis ymuno â ni.

## Diolch



Lindsay Thomas



Jane O'Brien



Guy Hopwood



Leila Kiersch



Brian Mark

Bwrdd Grannell Community Energy Limited

[grannellcoop.org.uk](http://grannellcoop.org.uk)



## Crynodeb

Cynnig cyfrannau yw hwn i godi cyfalaf ar gyfer tyrbin gwynt sy'n eiddo i'r gymuned, ger Llanbedr Pont Steffan, yng Ngheredigion, Gorllewin Cymru. Nod y cynnig hwn yw codi £700,000 tuag at y costau adeiladu. Sicrhawyd y gweddill, sef £535,000, ar ffurf benthyciad gan Fanc Datblygu Cymru. Ar ôl comisiynu'r tyrbin, bydd y benthyciad hwn yn cael ei ail-gyllido drwy lansio ail gynnis cyfrannau neu fondiau.

Yr hyn a gynigir yw cyfrannau yn Grannell Community Energy (GCE), sef cymdeithas budd cymunedol yng Ngheredigion sydd â chenhadaeth o fynd i'r afael â newid hinsawdd a helpu i gefnogi cymuned leol ffyniannus.

Agorwyd y cynnig rhandaliadau ar y 1af o Fehefin 2018, ac mi fydd yn cau pan chyrhaeddir y targed. Os na gyrhaeddir y targed erbyn Rhagfyr 14eg, ac os yw'r bwrdd ddim wedi gallu bodloni'r diffyg arian o unrhyw ffynhonnell cyfalaf arall sy'n cadw'r amserlen dychweliadau rhagamcanol i'r aelodau, bydd y cynnig cyfranddaliadau yn cau ac ni fydd y tyrbin yn cael ei adeiladu. Mae'r bwrdd yn archwilio ffynonellau cyllid eraill a allai fodloni'r diffyg arian, ond ni ellir gwarantu'r ddarpariaeth hon. Ni fydd yr adeiladu'n mynd rhagddo nes sicrhau'r holl gyfalaf sy'n ofynnol ar gyfer yr adeiladu, ac os na fydd y gwaith adeiladu'n mynd yn ei flaen, dychwelir yr arian cyfrannau'n llawn i'r ymgeiswyr.

Cynigir y cyfrannau am £1 yr un. Isafswm nifer y cyfrannau y gallwch wneud cais amdanynt yw 100 os ydych yn byw yng Ngheredigion neu ardaloedd côd post SA40 ac SY23, a 250 os ydych chi'n byw y tu allan i'r ardaloedd hynny. Y nifer mwyaf posibl yw 100,000 o gyfranddaliadau.



Bydd GCE yn talu llog ar gyfrannau, a rhagwelir mai 5% fydd hwn ar gyfartaledd ar draws 20 mlynedd. Manylir ymhellach ar broffil rhagamcanol y llog ar dudalen 13.

Yn ogystal â thaliadau llog, bydd yr aelodau'n gallu hawlio dychwelyd eu cyfalaf, a rhagwelir dychwelyd cyfalaf pob aelod erbyn diwedd yr 20 mlynedd. Gall aelodau ofyn am dynnu eu cyfalaf yn ôl ar unrhyw adeg cyn diwedd y prosiect. Bydd tynnu cyfalaf yn ôl yn gynnar yn digwydd yn ôl disgrisiwn y bwrdd, ond caniateir hynny lle bydd cyllid a llif arian yn caniatáu.

Mae GCE yn gweithredu ar sail 'un aelod, un bleidlais' ac mae'n croesawu aelodau i ymgymryd yn weithgar â gweithredu'r GCE, gan gynnwys y cyfle i bob aelod 18 oed neu hŷn sefyll i'w ethol i'r bwrdd.

Rydym yn bwriadu dosbarthu o leiaf £5,000 y flwyddyn o gyllid (wedi'i fynegi gyda'r Mynegai Prisiau Manwerthu) i achosion da yn y gymuned leol – trowch at dudalen 4 i gael gwybod rhagor.



*Os oes diddordeb gennych mewn buddsoddi, ni ddylech wneud hynny cyn darllen y ddogfen hon yn llawn a chymryd cyngor ariannol a chynghor arall priodol. Nid yw'r cynnig cyfrannau hwn yn cael ei ddiogelu gan Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol na'r Cynllun Digolledu Gwasanaethau Ariannol. Gallech golli rhywfaint neu'r cyfan o'ch arian.*

# Ein Cymuned

Prosiect ynni cymunedol yw hwn sy'n cael ei ddatblygu gan gymdeithas budd cymunedol.

**Ffrwyth brwdfrydedd grŵp o unigolion lleol dros wneud rhywbeth i godi arian i gefnogi gwasanaethau lleol sy'n prinhau yw'r prosiect hwn. Roeddem hefyd am helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd a gwneud yr economi wledig yn gadarnach. Cynigiwyd safle gyda chaniatâd cynllunio am dyrbin gwynt ac aethom ati i ffurfio cymdeithas budd cymunedol newydd er mwyn symud y prosiect yn ei flaen.**

Un o'n prif amcanion ar gyfer adeiladu'r tyrbîn yw cryfhau'r gymuned wledig sy'n agos i'r tyrbîn drwy wella'r cyfleusterau cymunedol. Bydd GCE yn creu cronfa gymunedol a fydd yn cael ei gwario yng nghymunedau Llanwnnen, Llanfihangel Ystrad, a Llanbedr Pont Steffan.



Ystyriwn fod ein cymuned yn cynnwys yr holl bobl hynny sydd am adeiladu gwell cymdeithas, sy'n cefnogi ynni adnewyddadwy ac sy'n ymboeni am newid hinsawdd. Gobeithiwn y bydd pobl o'r gymuned ehangach yn cefnogi ein prosiect drwy brynu cyfrannau – bydd yn waith caled codi £700,000 o'r ardal hon o Ganolbarth Cymru sydd mor denau ei phoblogaeth, ac sydd ymhlith yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn wledig yn y DU, a byddwn yn dibynnu ar lawer ohonoch ledled Cymru a'r DU sy'n cefnogi ein syniadau i hefyd gefnogi ein cynnig cyfrannau.



Mewn adroddiad a gomisiynwyd yn ddiweddar gan Community Energy England, sef "Community Energy, State of the Sector" (<https://communityenergyengland.org>), nodir 137 o brosiectau ynni cymunedol fel ein prosiect ni a adeiladwyd ledled y DU ers 1997, gan ddarparu cyfanswm gallu o 121 MW. Mae gan y sefydliadau hyn ryw 30,000 o aelodau i gyd, gan gynnwys 1,700 o wirfoddolwyr gweithgar. Mae'r prosiectau hyn wedi codi tua £190 miliwn o gyllid rhyngddynt, a £63 miliwn ohono o gyfrannau cymunedol.



# Buddion i'r gymuned

## Y gronfa gymunedol

Gobeithiwn wneud swm o £5,000 y flwyddyn o leiaf ar gael dros 20 mlynedd (yn amodol ar berfformiad y tyrbin) i'w roi mewn cronfa gymunedol i'w gwario yng nghymunedau Llanwnnen, Llanfihangel Ystrad, a Llanbedr Pont Steffan.

Bydd y bwrdd yn gwahodd awgrymiadau gan y cymunedau lleol o ran dyrannu a gwario'r gronfa hon. Y bwrdd a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol am ddsbarthu'r gronfa ond bydd yn ffafrio prosiectau sy'n helpu pobl / lleoedd lleol i leihau eu biliau tanwydd neu wella cludiant cyhoeddus lleol. Anogir aelodau GCE i sefyll i'w hethol i'r bwrdd ac felly cymryd rhan yn y broses benderfynu hon. Lle bo'n bosibl, holir barn yr aelodau yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i gynorthwyo'r broses benderfynu.

## Gostyngiadau carbon

Yn ôl yr astudiaethau a gomisiynwyd gan Digital Engineering, rhagamcanir y bydd y tyrbin ar y safle hwn yn cynhyrchu tua 1,743 MWh o drydan y flwyddyn (o dan senario P50). Dwyster carbon grid swyddogol y llywodraeth ar gyfer trydan grid yn 2017 oedd 351g/kWh sy'n golygu y dylai'r tyrbin hwn gwtogi tua 613 o dunelli'r flwyddyn ar allyriadau CO<sub>2</sub> y DU.

Byddai'r 1,743 MWh o drydan a gynhyrchwn yn cyflenwi trydan domestig tua 1,060 o bobl yn y DU ar gyfartaledd, neu 446 o gartrefi'r DU ar gyfartaledd (sef hanner ward Llanfihangel Ystrad).

**£5,000 o gronfa gymunedol**

**Arbed 613 tunnell o CO<sub>2</sub>**

**Digon o drydan i  
gyflenwi 446 o dai**

# Y gymdeithas



Bydd y tyrbîn yn eiddo i Grannell Community Energy Limited (GCE) a bydd y cyfrannau'n cael eu dosbarthu gan y gymdeithas honno. Cymdeithas budd cymunedol yw hon a sefydlwyd yn benodol i ddatblygu a gweithredu'r tyrbîn gwynt cymunedol hwn. Mae'r gymdeithas yn seiliedig ar reolau enghreifftiol a ddatblygwyd gan Co-operatives UK.

Mae cymdeithas budd cymunedol yn fath o gymdeithas gofrestredig gyda rheolau wedi'u cofrestru gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

Cymdeithas Budd Cymunedol (CBC) yw'r strwythur sefydliad gorau i brosiect fel hwn, a'r prif resymau fel a ganlyn:

Mae rheolau CBC yn mynnu bod y sefydliad yn gweithredu'r safonau uchaf o ran democratiaeth, cydraddoldeb, tryloywder a thegwch, gan roi'r cyfle mwyaf posibl i'r aelodau gymryd rhan yn y ffordd y caiff GCE ei gweithredu. Er enghraifft, y rheol "un aelod, un bleidlais" sy'n sicrhau bod pob aelod yn cael dweud ei ddweud, ni waeth faint o gyfrannau sydd ganddo.

Y gallu i godi cyfalaf cyfrannau cyhoeddus. Mae deddfwriaeth cymdeithasau yn caniatáu i gymdeithasau cofrestredig godi cyfalaf gan aelodau'r cyhoedd drwy werthu "cyfrannau cymunedol" heb orfod cydymffurfio â Gorchymyn Hyrwyddo Ariannol 2005 sydd ymhlith gofynion cynigion cyfrannau cyhoeddus mewn cwmnïau. Mae cyfrannau cymunedol (a elwir yn dechnegol yn "gyfrannau y gellir eu tynnu'n ôl") yn wahanol i gyfrannau mewn cwmnïau rhestredig.

Gweler yr adran 'Cynnig Cyfrannau' ar dudalen 14.

Cofrestrwyd Grannell Community Energy ar 9 Tachwedd 2016 gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a'r rhif cofrestru yw 7447. Y swyddfa gofrestredig yw Pandy, Cribyn, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7QH.

Gellir llwytho copi o'r rheolau i lawr o'r wefan [www.grannellcoop.org.uk](http://www.grannellcoop.org.uk). Dyma rai pethau pwysig sydd wedi'u cynnwys yn y rheolau:

Mae'r rheolau'n cynnwys darparu clo asedau. Mae hwn yn sicrhau, os caiff GCE ei dirwyn i ben ar unrhyw adeg ac ar ôl talu'r holl filiau sy'n ddyledus, fod hawl gan bob cyfranddaliwr gael gwerth unrhyw gyfalaf cyfrannau sy'n weddill ganddo yn GCE, ond byddai unrhyw arian ychwanegol a ddatodwyd gan y dirwyn i ben yn trosglwyddo i fenter gymdeithasol arall dan glo asedau gydag amcanion tebyg, ac nid i'r cyfranddaliwyr.

Mae'r rheolau hefyd yn rheoli'r weithred o ffurfio a gweithredu'r bwrdd o 3 neu ragor o gyfarwyddwyr. Gall unrhyw aelod 18 oed neu hŷn sefyll am etholiad i'r bwrdd. Ac eithrio talu eu treuliau, gwirfoddolwyr di-dâl yw'r aelodau bwrdd.

## Ymaelodi â'r gymdeithas

Yr unig ffordd o ymaelodi â GCE yw prynu cyfrannau yn GCE. Daw cyfranddaliwr yn aelod awtomatig o GCE.

Mae'r rheolau'n manylu ymhellach ar hawliau a chyfrifoldebau'r aelodau. Mae aelodaeth yn agored i unrhyw un 16 oed neu hŷn neu unrhyw sefydliad corfforedig. Daw unrhyw unigolyn neu unrhyw sefydliad corfforedig sydd wedi prynu cyfrannau yn aelod.

Mae'r rheolau hefyd yn nodi (fel gyda phob cymdeithas gofrestredig) fod gan bob aelod yr un hawliau pleidleisio mewn cyfarfodydd aelod, ni waeth faint o gyfranddaliadau sydd ganddo ("Un aelod, un bleidlais"). Fodd bynnag, mae llog yn cael ei dalu yn gymesur â nifer y cyfrannau a ddalir.

Anogir aelodau i ymddiddori yn null gweithredu GCE a gwneud y mwyaf o'r buddion sy'n ffrwyth gweithredu'r tyrbîn. Bob blwyddyn, ceir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol lle bydd penderfyniadau pwysig yn cael eu trafod ac, yn ôl yr angen, pleidleisiau'n cael eu cynnal amdanynt.

Ym mhob Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, mae gofyn i un o bob tri o'r bwrdd presennol sefyll i lawr (y rheini sydd hiraf mewn swydd ers eu hetholiad) ac mae pob aelod yn gymwys i sefyll i'w ethol i'r bwrdd newydd. Caiff y cyfarwyddwyr hynny y gofynnir iddynt sefyll i lawr hefyd sefyll i'w hailethol.

**Bydd y gymdeithas yn cael ei gweithredu'n ddemocrataidd gan wneud penderfyniadau yn ôl y rheol 'un aelod, un bleidlais'**

# Y bwrdd sefydlu

Ar hyn o bryd, mae gennym bedwar cyfarwyddwr sefydlu. Yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol cyntaf, bydd y bwrdd sefydlu hwn yn sefyll i lawr a bydd ei aelodau'n sefyll i'w hailethol gan yr aelodau, y gwahoddir unrhyw rai ohonynt i sefyll yn gyfarwyddwr newydd.

Dyma'r bwrdd cyffredol (o'r chwith i'r dde ar y dudalen ganlynol):

Ymgynghorydd ynni adnewyddadwy yw **Guy Hopwood** sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru, ac sy'n byw yng Ngheredigion ers 1972. Bu Guy yn ymwneud â datblygu amrywiaeth o gynlluniau ynni adnewyddadwy ers 2010, gan gynnwys tyrbîn gwynt 500kW yng Ngheredigion ac un arall yn Sir Gaerfyrddin, ac mae hefyd wedi buddsoddi mewn dau brosiect gwynt cymunedol yng Nghymru.

Ymunodd Guy â bwrdd GCE tua diwedd 2017 i roi cymorth ychwanegol i'r tri chyfarwyddwr sefydlu ac i geisio sicrhau bod gan Geredigion brosiect gwynt cymunedol llwyddiannus.

Ers amser maith, bu **Leila Kiersch** yn cefnogi cynhyrchu ynni adnewyddadwy a chefnogi cymunedau gwledig. Symudodd i Gymru bron 20 mlynedd yn ôl i astudio, ac mae wedi magu ei theulu yma yn ogystal ag ymdrechu i ddydsu'r iaith a bod yn aelod defnyddiol o'r gymuned.

Yn ei gyrfa broffesiynol, bu'n gweithio yn y sector ynni gwynt, mewn ynni cymunedol, ac yn rheoli elusen leol. Daw â phrofiad helaeth i'r bwrdd ac mae'n bwriadu chwarae rhan fawr i sicrhau llwyddiant y prosiect.

Mae **Jane O'Brien** wedi gweithio yn y sector cynaliadwyedd ers dros 25 mlynedd, yn troi syniadau yn brosiectau ymarferol ac yn helpu 30+ o gymunedau gyda phrosiectau mor amrywiol â datblygu tyrbînau gwynt, tyfu bwyd a iechyd a llesiant.

Mae hi'n gweld effeithlonrwydd ynni fel craidd cynaliadwyedd, mae ganddi MSc mewn Ynni a Chadwraeth, ac mae wedi cyflawni rôl flaenllaw mewn mentrau ynni adnewyddadwy, gyda llawer o gynigion ariannu llwyddiannus. Mae hi'n Gydlynnydd RENEW, yn ymgynghorydd i Energy Local ac yn gyfarwyddwr gwirfoddol ar Ynni Cymunedol Sir Benfro.

Mae Jane a'i gŵr yn berchen ar fusnes eco-dwristiaeth bychan sy'n cynnig gwersylla traddodiadol ac unedau llawn cymeriad oddi ar y grid.

Symudodd **Lindsay Thomas** i Gymru dros 30 mlynedd yn ôl, a ganwyd a magwyd ei phedair merch yma, gan fynychu'r ysgolion lleol a symud ymlaen i'r brifysgol.

Bu'n gweithredu busnes cyhoeddi a gwasg fechan yng Ngheredigion yn flaenorol, ac yn datblygu'r swyddfa sirol i helpu teuluoedd gyda phlant ag anghenion ychwanegol, ond mae bellach yn hyrwyddo'r gornel unigryw a digyffwrdd hon o Gymru drwy ei bythynnod gwyliau. A hithau'n un o gyfarwyddwyr sefydlu GCE, mae hi'n benderfynol o wneud i hyn weithio, er lles yr amgylchedd, ei chymuned leol, a helpu gyda chyllido mentrau amgylcheddol lleol. Mae arni eisiau gweld mwy o brosiectau fel hyn yn dwyn ffrwyth, sef cynhyrchu ynni'n lleol i gymunedau lleol, gan ddiogelu adnoddau gwerthfawr i genedlaethau'r dyfodol.

Mae **Brian Mark** yn byw oddi ar y grid ger Aberteifi a chyn ymddeol, roedd yn beirianydd gwasanaethau adeiladu masnachol. Ef oedd un o'r partneriaid a sefydlodd Fulcrum Consulting, ymgynghoriaeth peirianeg gynaliadwy gyda 200 o staff.

Mae Brian yn arbenigwr ar ddylunio dinasoedd ac adeiladau ynni isel, gan gynnwys ynni adnewyddadwy integredig, ac mae wedi gwasanaethu ar Fwrdd Ymgynghorol Ynni Adnewyddadwy llywodraeth y Deyrnas Unedig, yn rhoi cyngor ar sut mae cyflawni targedau ynni adnewyddadwy.

Mae Brian yn gefnogwr brwd i berchnogaeth gymunedol, gan gynnwys cynhyrchu ynni, ac mae ganddo brofiad o gyflawni, er enghraifft, bu'n gyfarwyddwr am sawl blwyddyn ar y sefydliad cymunedol llwyddiannus, 4CG, yn Aberteifi.





### Arferion Bwrdd

Nid yw Cyfarwyddwyr yn cael eu talu a, heblaw ad-dalu treuliau, nid oes unrhyw fuddion eraill o fod yn gyfarwyddwr. Y bwrdd fydd yn rheoli'r gweithredu o ddydd i ddydd.

### Gwrthdaro Buddiannau

Cafodd Leila Kiersch ei thalu gan GCE tua dechrau'r prosiect yn ei rôl yn weithiwr proffesiynol yn y sector ynni cymunedol (pan gâi ei chyflogi gan Sharenergy) ac, yn ddiweddarach, am reoli'r broses dendro am gontractau adeiladau i'r bwrdd prosiect drwy ei chwmni naet-Co Ltd. Ni chymerodd Leila ran yn y drafodaeth am gomisiynu'r gwaith hwn ac fe'i gwahoddwyd i'r bwrdd yn rhannol er mwyn dod â'i harbenigedd i GCE yn lle bod GCE yn dibynnu drwyddi draw ar dalu cynghorwyr a ddefnyddir.

### Achosion Cyfreithiol

Ni fu unrhyw achosion llywodraethol, cyfreithiol na chyflafareddu mewn perthynas â GCE ac nid oes un i ddod nac wedi'i fygwth a allai effeithio'n sylweddol ar sefyllfa ariannol neu broffidioldeb GCE.

### Datgeliad

Nid oes yr un o gyfarwyddwyr GCE, o leiaf ers pum mlynedd, wedi cael unrhyw gollfarnau (am unrhyw drosedd dwyllodrus neu fel arall), na bod yn rhan o unrhyw fethdaliad na derbynyddiad, na wedi cael unrhyw wrthgyhuddiad na sancsiwn cyhoeddus gan awdurdod statudol neu reoleiddiol na chorff proffesiynol dynodedig, na chael eu diarddel o unrhyw swyddogaeth gan unrhyw lys.

# Y Model Busnes

Busnes Grannell Community Energy fydd cynhyrchu a gwerthu ynni adnewyddadwy a defnyddio ei warged er budd y gymuned.

## Safle Ffrwd Farm

Mae Ffrwd Farm tua 2.6 milltir i'r gorllewin o Lanbedr Pont Steffan, ac mae safle'r tyrbin ar lechwedd sy'n wynebu'r gorllewin uwchlaw'r fferm.

Cafodd Seren Energy, sef datblygwr safleoedd tyrbin gwynt, y caniatâd a'r trwyddedau sy'n angenrheidiol i'r safle. Mae hyn yn cynnwys caniatâd cynllunio am dyrbin Enercon E48, opsiwn prydlesu gyda'r tîrfeiddianwyr am gyfnod o 25 mlynedd a chynnig cysylltu â'r grid trydan gan y gweithredwr rhwydwaith dosbarthu lleol, Western Power Distribution. Mae GCE wedi caffael pob hawl i ddatblygu'r safle, gan gynnwys y brydles a phob caniatâd a thrwydded gan Seren Energy wedi ei brynu gan Seren Energy o'r cwmni 'Special Purpas Vehicle' (SPV) bod yr hawliau hyn i gyd yn byw o'i fewn.

## Y tyrbin

Y tyrbin a nodwyd ar gyfer y safle yw Enercon E48. Tyrbin 800kW yw hwn a chanddo ddiamedr llafn o 48m. Ar ein safle, bydd canol y llafnau 50m uwchlaw lefel y ddaear. Oherwydd cyfyngiadau grid, bydd y tyrbin yn gweithredu ar lefel 500kW ar y mwyaf pan fydd wedi'i osod yn Ffrwd.

Cwmni o'r Almaen yw Enercon ac yn 2016 cymerodd 26% o gyfran marchnad tyrbinau Ewrop. Ystyrir Enercon gan lawer yn arweinwyr marchnad. Tyrbinau gyriant uniongyrchol sydd ganddynt (h.y. nid oes blwch gêr yn ofynnol), sy'n gwella dibynadwyedd ac yn lleihau colledion ffrithiannol.

Roedd y tyrbin a brynwyd gan GCE wedi'i osod yn wreiddiol ar fferm wynt yn yr Iseldiroedd yn 2005 ond cafodd ei ddatgomisiynu ym mis Ebrill 2018 yn rhan o raglen i ail-bweru'r safle â pheiriannau mwy o faint. O'r cychwyn cyntaf, mae'r tyrbin wedi'i wasanaethu gan Enercon o dan ei gontract gwasanaethu a chynnal a chadw llawn. Mae adroddiadau technegol annibynnol yn dangos ei fod mewn cyflwr ardderchog gyda llawer o flynyddoedd gweithredu'n weddill; bydd ychydig o waith ailwampio'n cael ei wneud tra bydd y tyrbin yn cael ei storio.

<sup>1</sup> <https://www.enercon.de/en/company/market-share/>

# Rhagwelir y bydd ein tyrbin Enercon E48 yn cynhyrchu 1,743,000 kWh o drydan y flwyddyn



## Incwm

Yn ystod 20 mlynedd gyntaf y gweithredu, bydd GCE yn cael incwm o'r Tariff Cyflenwi Trydan ac o werthu'r trydan i'r grid.

Mae'r tyrbin wedi cymhwysu am 1.92c/kWh o Dariff Cyflenwi Trydan, a fydd yn cael ei gynyddu yn ôl y Mynegai Prisiau Adwerthu dros 20 mlynedd. I gael gwybod sut mae'r Tariff Cyflenwi Trydan yn gweithio, trowch at wefan OFGEM yn [www.ofgem.gov.uk/cy/cymraeg](http://www.ofgem.gov.uk/cy/cymraeg). Bydd GCE yn gymwys am y tariff hwn cyhyd ag y bydd y tyrbin wedi'i gomisiynu erbyn diwedd mis Rhagfyr 2019.

Bydd y tyrbîn hefyd yn gallu gwerthu trydan i'r grid. Gall Grannell Community Energy benderfynu rhwng derbyn tariff allforio OFGEM (sef 5.24c/kWh ar hyn o bryd) neu gyd-drafod CPP (cytundeb prynu pŵer) gan gyflenwr trydan. Ar gyfer tyrbîn gwynt o'r maint hwn, yn hanesyddol bu'n bosibl dod o hyd i brynwr i'r trydan drwy CPP am bris uwch na thariff allforio OFGEM.

Un peth sy'n hollbwysig i'r rhagamcaniadau ariannol yw'r amcangyfrif a ddefnyddir ar gyfer pris gwerthu'r trydan yn y blynyddoedd i ddod. Dros y 5 mlynedd ddiwethaf mae'r pris allforio hwn wedi anwadaluo ac mae hyn yn debygol o barhau a bydd costau tanwydd ffosil yn dylanwadu arno yn ogystal â pholisi llywodraeth ar reoliadau amgylcheddol a strategaeth ynni.

Tybia ein model ariannol ein bod yn derbyn tariff allforio sicr OFGEM, ond teimla GCE fod hwn yn geidwadol ac, os gellir cael mwy o werth yn y dyfodol drwy werthu trydan, bydd hwn yn cael ei fwydo i gronfa gymunedol uwch.

## Asesiad Cyflymder y Gwynt

Un o'r elfennau pwysicaf wrth gyfrifo incwm yw cyflymder y gwynt ar y safle. Yn ystod y cyfnod datblygu, comisiynwyd asesiad o gyflymder y gwynt gan Digital Engineering, sef gwasanaeth ymgynghori sydd â phrofiad helaeth iawn o ragweld cyflymderau gwynt i safleoedd tyrbîn gwynt.

Yn ei adroddiad, rhoir dau ganlyniad allweddol, sef amcangyfrif "canolog" o gyflymder cyfartalog y gwynt (yr amcangyfrif P50 fel y'i gelwir) a senario "pesimistaidd" o ran cyflymder cyfartalog y mae 90% yn ffyddiog y bydd y safle'n rhagori arno (yr amcangyfrif P90 fel y'i gelwir). Mae'r ddau senario hyn yn sail i'n modelu ariannol.

Daeth yr arolwg o gyflymder y gwynt i'r casgliad mai cyflymder gwynt cyfartalog y P50 ar 50m o uchder tŵr tyrbîn yw 7.1 m/s a chyflymder gwynt y P90 yw 6.6 m/s.

Mae'r asesiad gan Digital Engineering yn cynnwys y rhagamcaniadau cyflymder gwynt a'r cynnyrch ynni o dyrbin gwynt penodol ar sail y gromlin bŵer a ddarparwyd gan weithgynhyrchwr y tyrbîn. Addasir

y rhain i ystyried amser di-fynd ar gyfer cynnal a chadw a cholledion trydanol, i roi amcangyfrif realistig o'r trydan y gellir ei werthu. Cyfrifodd Digital Engineering y byddai tyrbîn Enercon 500kW ar y safle yn cynhyrchu 1,743 MWh y flwyddyn yn senario P50 a 1,522 MWh y flwyddyn yn senario P90.

Mae gostyngiad ychwanegol o 2% hefyd wedi'i gynnwys yn ein rhagamcaniadau i ganiatáu am y ffaith bod y tyrbîn wedi'i ailwampio.

## Gwariant Gweithredu

Bydd Grannell Community Energy yn gyfrifol am holl gostau gweithredu'r tyrbîn, gan gynnwys:

**Costau cynnal a chadw** Bydd GCE yn cael contract gyda darparwr gwasanaeth i wneud gwaith cynnal a chadw ataliol a chywirol prydlon ar y tyrbîn. Cafwyd dyfynbrisiau am gontractau cynnal a chadw gan ddarparwyr sy'n addas o gymwys. Rydym wedi cyllidebu yn y tymor hir am gostau cynnal a chadw ar yr un lefel â'r contract y mae Enercon yn ei godi ar dyrbinau newydd, ond rydym yn ffyddiog y dylem allu prynu hwn o dan y gost gyllideb hon, drwy ddefnyddio cwmnïau gwasanaeth trydydd parti cymwysedig.

**Yswiriant** Cyn dechrau unrhyw waith ar y safle, bydd Grannell Community Energy yn trefnu ac yn cadw yswiriant atebolrwydd cyhoeddus trydydd parti, ac yn ystod oes y tyrbîn bydd gan GCE yswiriant gweithredol i ddiogelu ar gyfer difrod nad yw wedi'i gynnwys gan y warant cynnal a chadw.

**Rhent ac Ardrethi** Bydd Grannell Community Energy yn gyfrifol am dalu rhenti ac ardrethi. Diffinnir y fformiwla ar gyfer cyfrifo rhent yn y brydles am y 25 mlynedd gyfan. Mae'r brydles hefyd yn gofyn bod cronfa'n cael ei sefydlu i ddatgomiynu'r safle ar ddiwedd y prosiect. Mae GCE wedi derbyn sicrwydd gan Gyngor Sir Ceredigion y byddent yn cael rhyddhad ardrethi elusennol o 100%.

**Gweinyddu** mae GCE wedi cyllidebu am gostau gweinyddu cymdeithas gan gynnwys cadw cyfrifon, cyfrifon blynyddol a chydymffurfio rheoleidiol, cyfathrebu

ag aelodau a rheoli'r aelodaeth, mesur a gweinyddu'r Tariff Cyflenwi Trydan a gwerthu trydan.

**Monitro a Mesur** Mae gennym gyllideb am gynnal a chadw a chyfathrebu ar gyfer y systemau mesur a monitro.

Mae'r cyllidebau adeiladu a gweithredu yn cynnwys lwfans wrth gefn i dalu costau annisgwyl.

Yn ogystal â'r costau gweithredu hyn, bydd cronfa wrth gefn yn cael ei chreu er mwyn i GCE dalu cyfalaf cyfrannau yn ôl erbyn diwedd yr 20 mlynedd o daliadau Tariff Cyflenwi Trydan.

### Cyfyngiadau cynllunio

Dim ond un amod sydd yn ein caniatâd cynllunio a allai effeithio ar weithredu a chynnyrch y tyrbîn, sef cyfyngiad ar weithredu i atal niwed i ystumod. Yr unig gam lliniaru a fyddai'n ofynnol yw diffodd y tyrbîn am 24 awr ar ôl unrhyw waith torri porfa o fewn 50m o'r tyrbîn. Disgwylir y bydd effaith hyn yn brin iawn.

### Cymhwyso gwarged

Ar ôl didynnu costau gweithredu a dibrisio asedau o'r incwm, bydd taliadau llog yn cael eu gwneud i aelodau. Defnyddir y gwarged sy'n weddill er budd y gymuned.

Ein targed yw talu o leiaf £5,000 y flwyddyn i gronfa gymunedol (wedi'i fynegi gyda'r Mynegai Prisiau Manwerthu) a thalu taliadau llog i'r cyfranddalwyr, yn ôl y proffil ar dudalen 13, a fyddai'n gyfwerth â 5% o gyfradd adennill fewnol (IRR) ar draws 20 mlynedd (ar sail yr amcangyfrif canolog - P50 - o gyflymder y gwynt).

Gweler tudalen 13 am fanylion pellach talu llog i gyfranddalwyr a thalu'r gronfa gymunedol.

### Treth Gorfforaeth

Bydd treth gorfforaeth yn daladwy ar unrhyw elw a gedwir ar ôl talu llog aelodau ac ar ôl unrhyw rodd o warged i sefydliadau elusennol.

Bydd Grannell Community Energy yn anelu at roi'r rhan fwyaf o elw a gedwir i sefydliadau elusennol cymwys, ond lle bydd rhodd yn cael ei wneud i sefydliad nad yw'n elusen gofrestredig, gall fod atebolrwydd treth gorfforaeth. Bydd angen ystyried hyn wrth wneud unrhyw rodd i gronfa gymunedol, a bydd y symiau sydd ar gael yn cael eu lleihau yn ôl swm y dreth gorfforaeth y mae Grannell Community Energy yn atebol i'w thalu.

### Diwedd oes y prosiect

Ar ddiwedd 20 mlynedd, rhagamcanwn y bydd cyfalaf pob cyfranddaliwr wedi'i ddychwelyd yn ogystal â'r llog blynyddol wedi'i dalu.

Gan dybio y bydd y tyrbîn yn parhau'n economaidd fuddiol, byddwn yn parhau i weithredu'r tyrbîn nes bod y brydles a'r caniatâd cynllunio yn dod i ben ym mlwyddyn 25, gyda'r holl elw dros ben o'r tyrbîn hwn ar ôl blwyddyn 20 yn mynd i'r gronfa gymunedol. Bryd hynny, bydd GCE yn penderfynu rhwng ceisio prydles newydd ac ailosod tyrbîn, a datgomisiynu'r tyrbîn. Bydd cronfa ddatgomisiynu'n cael ei chronni o incwm yn ystod oes weithredol y tyrbîn i dalu am ddatgomisiynu os yw'n ofynnol.

### Datblygu safleoedd ychwanegol

Ar hyn o bryd, nid oes gan GCE unrhyw gynlluniau i ddatblygu unrhyw brosiectau eraill, ond ni ddiystyrir hyn yn llwyr. Byddai unrhyw brosiectau yn y dyfodol yn amodol ar gymeradwyaeth yr aelodau mewn cyfarfod cyffredinol o aelodau.

### Cyfrifon

Corfforwyd Grannell Community Energy ar 9 Tachwedd 2016. Diwedd ei flwyddyn ariannol yw 31 Rhagfyr. Adeg y cyhoeddiad cyfrannau hwn, nid yw GCE wedi cyhoeddi cyfrannau heblaw un gyfran i bob cyfarwyddwr sefydlu, ac nid yw wedi masnachu trydan. Mae'r unig drafodion a wnaethpwyd gan GCE hyd yma mewn perthynas â chostau datblygu ar gyfer tyrbîn Ffrwd Farm y talwyd amdanynt gan grantiau a chan y benthyciad gan Fanc Datblygu Cymru.

# Ariannol

## Cyllideb

Cyfanswm costau cyllideb y prosiect yw £1.2M. Dadansoddir y gyllideb hon fel a ganlyn:

Costau datblygu (costau cyfreithiol, prynu'r safle, cynnig cyfrannau, costau cyllido, rheoli prosiect, marchnata)	(,000au) £141
Cysylltu â'r grid	£180
Costau adeiladu (prynu'r tyrbîn, ailwampio, cludo, codi, sylfeini, llwybr mynediad, gwaith trydanol arall, cymorth peirianeg)	£803
Cronfa wrth gefn	£52
<b>Cyfanswm</b>	<b>£1,176</b>

Nodiadau ar ddadansoddiad y gyllideb:

- Nid yw gwaith adeiladu'r tyrbîn wedi dechrau eto. Lle bo modd, mae'r gyllideb yn seiliedig ar ddyfynbrisiau cystadleuol. Fodd bynnag, mae'n amhosibl rhagweld yr holl amrywiadau a allai ddigwydd. Mae ychydig yn fwy na £50,000 o gronfa wrth gefn wedi'i chynnwys yn y gyllideb.
- Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys TAW. Roedd TAW yn daladwy ar y rhan fwyaf o eitemau heblaw'r tyrbîn, a bydd llif arian TAW yn cael ei reoli drwy ledw taliadau dros nifer o chwarterau TAW fel bod TAW ar anfonebau cynnar yn cael ei hadennill cyn bod gofyn talu anfonebau diweddarach.

## Ffynonellau cyfalaf

Cyfanswm y gofyniad cyfalaf ar gyfer y prosiect yw ychydig o dan £1,200,000 fel y dengys y tabl uchod.

Sicrhawyd £535,000 o hwn drwy fenthyciad gan Fanc Datblygu Cymru. Defnyddir y benthyciad hwn i dalu costau y mae angen mynd iddynt cyn bod y cynnig cyfrannau wedi'i gwblhau a chyn y gellir defnyddio arian cyfrannau. Mae'r costau i'w talu gan y benthyciad yn cynnwys prynu'r tyrbîn ail law, costau storio a chludo, ffi cysylltu â'r grid a chost adeiladu'r llwybr mynediad.

Cafwyd hefyd gyfres o grantiau sef cyfanswm o £77,000 o gynllun Ynni Lleol Llywodraeth Cymru i dalu costau'r cyfnod cynnar. Mae'r bwrdd wedi gwirio nad yw'r grant hwn yn effeithio ar ein cymhwyster am y Tariff Cyflenwi Trydan.

Bydd gweddill y costau cyfalaf yn cael eu codi o'r cynnig cyfrannau hwn.

<b>Cyfanswm cost (,000au)</b>	<b>£1,176</b>
Benthyciad Banc Datblygu Cymru	-£535
Grant Ynni Lleol	-£77
Cronfa wrth gefn i reoli TAW (taliadau a fydd yn cael eu hadennill gan CThEM)	+£100
<b>Gweddill y cyllid sy'n ofynnol</b>	<b>£664</b>

Gweddill y cyllid sy'n ofynnol felly yw ychydig llai na £700,000. Mae hyn yn cynnwys cronfa wrth gefn i dalu TAW oherwydd bydd gofyn inni dalu TAW ar lawer o'n gwariant. Caiff hwn ei adennill yn y pen draw gan CThEM ond mae angen inni gael digon o arian i dalu am hwn yn y cyfamser.

Y targed ar gyfer y cynnig cyfrannau felly yw £700,000. Ar ôl adennill y TAW gan CThEM, defnyddir hon ac unrhyw warged arall i dalu'n ôl rywfaint o fenthyciad Banc Datblygu Cymru.

Ar ôl cwblhau'r gwaith adeiladu, bydd gweddill y benthyciad yn cael ei ail-gyllido gan gynigion cyfrannau neu fondiau yn y dyfodol; mae'n debygol y rhoir blaenoriaeth i aelodau presennol ar fondiau neu gyfrannau yn y dyfodol.

## Rhagamcaniadau ariannol

Modelwyd dau ragamcaniad ariannol, gan ddefnyddio gwahanol ragdybiaethau ar gyfer cynhyrchu ynni tyrbîn. Y senarios hyn yw:

Senario canolog – ar sail codi'r £1.2m llawn o gyfrannau a rhagolygon canolog cyflymder y gwynt (y cyflymder gwynt P50 fel y'i gelwir).

Senario cynnyrch isel – ar sail codi'r £1.2M llawn o gyfrannau, ond cynnyrch ynni pesimistaidd ar sail y cyflymder gwynt P90 fel y'i gelwir (gweler tudalen 9).

Mae'r rhagamcaniadau ariannol yn defnyddio'r amcangyfrif o wariant a restrir yn yr adran model busnes uchod.

### Senario 1: P50 (amcangyfrif canolog o gynnyrch)

Dengys y tabl isod incwm, gwariant a llif arian i GCE dros yr 20 mlynedd y ceid y Tariff Cyflenwi Trydan ar sail ein rhagdybiaethau modelu.

(.000au)								
<b>Elw a cholled</b>	<b>Rhag'19</b>	<b>Rhag'20 (bl. 1)</b>	<b>Rhag'21 (bl. 2)</b>	<b>Rhag'22 (bl. 3)</b>	<b>Rhag'23 (bl. 4)</b>	<b>Rhag'24 (bl. 5)</b>	<b>bl. 6-10</b>	<b>bl. 11-20</b>
<b>Cyfanswm incwm</b>		<b>126</b>	<b>130</b>	<b>134</b>	<b>138</b>	<b>142</b>	<b>775</b>	<b>1,940</b>
<b>Treuliau</b>								
Treuliau gweithredu		40	41	42	43	44	274	733
Llog benthyciad		32	0	0	0	0	0	0
<b>Cyfanswm treuliau</b>		<b>72</b>	<b>41</b>	<b>42</b>	<b>43</b>	<b>44</b>	<b>274</b>	<b>733</b>
<b>Gwarged gweithredu</b>								
Dibrisiad		-55	-55	-55	-55	-55	-275	-549
Llog banc a enillwyd		1	0	0	0	0	2	3
Cronfa gymunedol		-5	-5	-6	-6	-6	-48	-119
<b>Gwarged</b>		<b>-5</b>	<b>29</b>	<b>32</b>	<b>34</b>	<b>37</b>	<b>181</b>	<b>542</b>
<b>Gwarged (colledion a ddygwyd ymlaen)</b>		<b>0</b>	<b>23</b>	<b>32</b>	<b>34</b>	<b>37</b>	<b>181</b>	<b>542</b>
<b>Dosbarthiadau</b>								
Taliadau llog aelodau		0	23	32	34	37	181	542
<b>Cyfanswm dosbarthiadau</b>		<b>0</b>	<b>23</b>	<b>32</b>	<b>34</b>	<b>37</b>	<b>181</b>	<b>542</b>
<b>Cyllid argadwedig</b>		<b>-5</b>	<b>5</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>
<b>Llif arian</b>								
<b>Gwariant cyfalaf llai o grantiau a dderbyniwyd</b>	<b>-1,099</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>
Cyllid argadwedig	0	-5	5	0	0	0	0	0
Adio dibrisiad yn ôl	0	55	55	55	55	55	275	549
Cyfalaf cyfrannau aelod	700	380	-35	-54	-54	-54	-270	-540
Cyfalaf benthyciad	535	-535	0	0	0	0	0	0
<b>Arian yn y banc</b>	<b>136</b>	<b>31</b>	<b>56</b>	<b>57</b>	<b>58</b>	<b>59</b>		
Cyfradd adennill fewnol aelodau	5.0%							

Gyda'r rhagdybiaethau hyn, bydd aelodau'n cael 5% o gyfradd adennill fewnol ar eu cyfrannau. Dyma'r proffil llif arian rhagamcanol i aelod sy'n prynu 1,000 o gyfranddaliadau yn y senario hwn:

Dyddiad	Ebr'19	Hyd'19	Ebr'21	Ebr'22	Ebr'23	Maw'24	Maw'25	Maw'26	Maw'27
Cyfalaf	-1,000	0	50	50	50	50	50	50	50
Llog		0	0	33	29	32	34	29	31
<b>Cyfanswm</b>	<b>-1,000</b>	<b>0</b>	<b>50</b>	<b>83</b>	<b>79</b>	<b>82</b>	<b>84</b>	<b>79</b>	<b>81</b>

Dyddiad	Maw'28	Maw'29	Maw'30	Maw'31	Maw'32	Maw'33	Maw'34	Maw'35	Maw'36
Cyfalaf	50	50	50	50	50	50	50	50	50
Llog	33	36	39	37	40	39	37	40	43
<b>Cyfanswm</b>	<b>83</b>	<b>86</b>	<b>89</b>	<b>87</b>	<b>90</b>	<b>89</b>	<b>87</b>	<b>90</b>	<b>93</b>

Dyddiad	Maw'37	Maw'38	Maw'39	Maw'40	Maw'41	Maw'42	Maw'43	Cyfanswm	IRR
Cyfalaf	50	50	50	50	50	50	50	1,025	
Llog	46	48	51	54	58	61	64	771	
<b>Cyfanswm</b>	<b>96</b>	<b>98</b>	<b>101</b>	<b>104</b>	<b>108</b>	<b>111</b>	<b>114</b>	<b>1,796</b>	<b>5.0%</b>

Sylwer y bydd y costau a'r cynhyrchiad ynni gwirioneddol yn anwadaldu'r naill flwyddyn ar ôl y llall, felly dim ond cynrychioliad yw'r proffil llif arian hwn.

Yn ogystal ag ad-dalu cyfalaf a llog aelodau, mae'r rhagamcaniadau hefyd yn nodi y bydd y gronfa gymunedol yn werth rhyw £5,000 y flwyddyn i ddechrau a bydd y gronfa gymunedol gyfan ar draws 20 mlynedd yn werth tua £140,000.

### Senario 2: cynnyrch P90 (90% yn ffyddiog y bydd y cynnyrch yn well na hyn)

Yn y senario hwn, mae'r rhagamcaniadau ariannol yn nodi y bydd aelodau'n adennill 3.1% ar eu cyfrannau ac y bydd y gronfa gymunedol yn lleihau i £2,000 y flwyddyn. Sylwer mai senario 90% yn ffyddiog yw hwn, h.y. yn ystadegol, rydym 90% yn debygol o wneud yn well na hyn a 10% yn debygol o wneud yn waeth na hyn.

### Crynodeb o ragamcaniadau ariannol

Yn ôl y rhagamcaniadau canolog, bydd yr aelodau'n adennill 5% a bydd y gronfa gymunedol yn cael lefel o £5,000 y flwyddyn cyhyd â bod y tyrbîn yn cynhyrchu o leiaf 95% (ar gyfartaledd) o'r cynnyrch a fodelwyd. Os na fydd y tyrbîn yn perfformio yn ôl y disgwyl, mae risg y bydd adenillion aelodau'n gostwng islaw 5%.

Sylwer bod yr adenillion a ddyfynnwyd yn gyfartaleddau ar draws 20 mlynedd y Tariff Cyflenwi Trydan (fel y mesurir yn ôl IRR neu Gyfradd Adennill Fewnol). Bydd y gyfradd llog yn dechrau'n is ac yn codi yn ystod y prosiect. Mae hyn yn nodweddiadol o'r adenillion ar gyfranddaliadau ynni cymunedol ac adlewyrchant broffil incwm a gwariant sy'n nodweddiadol o osodiadau ynni adnewyddadwy.

# Cynnig Cyfrannau

## Taliadau llog i aelodau a thaliadau i'r gronfa gymunedol

Ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, caiff cyfrifon eu paratoi a gwarged ei gyfrifo. Yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol ar ôl diwedd y flwyddyn, bydd y bwrdd yn argymhell i'r aelodau faint ddylid ei dalu mewn llog a faint y dylid ei ddyrannu i'r gronfa gymunedol, ac ar ôl unrhyw benderfyniad yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol, bydd y swm llog a benderfynwyd yn cael ei dalu gan GCE i'r aelodau yn fuan ar ôl y cyfarfod. Bydd y taliadau llog cronnus i aelodau yn cael eu monitro gan GCE i sicrhau y bydd llog cronnus i aelodau yn cyrraedd y targed 5% os oes modd.

## Trethiant

Nid yw'r cynnig cyfrannau hwn yn gymwys am ostyngiadau EIS neu SISR yn y dreth (Gostyngiad yn y Dreth i Gynllun Buddsoddi mewn Menter neu Fuddsoddiad Cymdeithasol).

Gall llog o'r cyfrannau hyn fod yn ddi-dreth o dan y Lwfans Cynilion Personol. O dan hwn, gall trethdalwyr y gyfradd safonol ennill hyd at £1000 a gall trethdalwyr cyfradd uchel ennill hyd at £500 o log ar gynilion, yn ddi-dreth. I gael gwybod rhagor, trowch at [www.gov.uk/government/publications/personal-savings-allowance-factsheet](http://www.gov.uk/government/publications/personal-savings-allowance-factsheet)

Gall cyfrannau mewn cymdeithas gael eu trosglwyddo yn rhydd o Dreth Etifeddiant.

Targed y cynnig cyfrannau hwn yw codi £700,000 drwy werthu 700,000 o gyfrannau y gellir eu tynnu'n ôl, i'w cyhoeddi bob un gyda llawn werth o £1 pan dderbynnir cais dilys ar Delerau ac Amodau'r Ddogfen Gynnig hon. Bydd y cynnig cyfrannau ar gau i geisiadau newydd cyhyd ag y cyrhaeddir y targed hwn. Os na chyrhaeddir y targed erbyn 14 Rhagfyr 2018 gall y cynnig gael ei derfynu a'r arian cyfrannau ei ddychwelyd i'r ymgeiswyr cyfrannau ond bod y bwrdd yn cadw'r disgrisiwn i estyn y cynnig neu drefnu cyllid o fath arall os oes modd.

## Cyfrannau y gellir eu tynnu'n ôl

Crëir cyfrannau y gellir eu tynnu'n ôl o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 ac maent yn wahanol i'r "cyfrannau trosglwyddadwy" a gyhoeddir fel arfer i gwmnïau. Dyma'r prif wahaniaethau:

Ni ellir trosglwyddo'r cyfrannau i unigolyn arall a dim ond i GCE y gellir eu gwerthu'n ôl. Ni fydd gwerth y cyfrannau byth yn codi'n uwch na'r pris cyhoeddi (£1). Nid yw'r cyfrannau'n cael eu masnachu ar unrhyw gyfnewidfa stoc.

Mae mwyafswm cyfreithiol y gall unrhyw unigolyn ei brynu, sef £100,000. Nid yw'r terfyn hwn yn berthnasol i gymdeithasau cofrestredig eraill a all brynu nifer di-bendraw o gyfrannau.

## Diben y cynnig cyfrannau

Bydd enillion y cynnig cyfrannau'n cael eu defnyddio i gyllido gwaith adeiladu tyrbîn gwynt yn Ffrwd Farm, Ceredigion.

## Lleiafswm a mwyafswm ceisiadau unigol

Gall ymgeiswyr sy'n byw yng Ngheredigion ac ardaloedd côd post SA40 ac SY23 wneud cais am isafswm o 100 cyfran, a 250 cyfran os ydynt y tu allan i'r ardal hon. Mwyafswm y cyfrannau y gall unrhyw aelod fod yn berchen arnynt yw 100,000. Pris pob cyfran yw £1.



Caniateir tanysgrifiadau lluosog ar yr amod na fydd Aelod yn dal mwy na'r mwyafswm o'u herwydd.

### Prynu cyfrannau ar ran plant

Cewch enwi un neu ragor o blant yr hoffech i rai o'ch cyfrannau drosglwyddo iddynt pan gyrhaeddant oedran aelodaeth. Cytuna GCE i dynnu cyfrannau o'ch cyfrif cyfrannau a chyhoeddi cyfrannau newydd i'r plentyn ar ei ben-blwydd yn 16. Pan gyrhaeddir y pen-blwydd hwn, byddwch yn cael tystysgrif cyfrannau newydd yn enw'r plentyn a bydd y plentyn yn aelod o hynny ymlaen. Sylwch mai trefniant gweinyddol yw hwn ac nid enwebiad sy'n rhwymo mewn cyfraith, a chewch ei ddiddymu ar unrhyw adeg. Nid oes rhaid i'r plentyn fod yn perthyn i'r aelod. Ar gyfer pob plentyn, nodwch enw, dyddiad geni a nifer y cyfrannau wrth lenwi'r ffurflen gais.

### Dyddiadau cau'r cynnig cyfrannau

Y lleiafswm cyllid sy'n ofynnol er mwyn bwrw ymlaen ag adeiladu'r tyrbîn yw £700,000. Ni chaiff ceisiadau eu troi'n gyfrannau, nac arian ei wario, hyd y cyrhaeddir y targed hwn o geisiadau am gyfrannau neu ffynonellau eraill o gyllid.

Agorwyd y cynnig rhandaliadau ar y 1af o Fehefin 2018, ac mi fydd yn cau pan gyrhaeddir y targed. Os na chyrhaeddir y targed erbyn Rhagfyr 14eg, ac os yw'r bwrdd ddim wedi gallu bodloni'r diffyg arian o unrhyw ffynhonnell cyfalaf arall sy'n cadw'r amserlen dychweliadau rhagamcanol i'r aelodau, bydd y cynnig cyfranddaliadau yn cau ac ni fydd y tyrbîn yn cael ei adeiladu. Mae'r bwrdd yn archwilio ffynonellau cyllid eraill a allai fodloni'r diffyg arian, ond ni ellir gwarantu'r ddarpariaeth hon.

Ni ddechreuir adeiladu nes bod yr holl gyllid angenrheidiol wedi'i sicrhau i gwblhau'r prosiect; fel arall, ni fydd y gwaith adeiladu'n digwydd a dychwelir pob arian i'r ymgeiswyr cyfrannau.

### Dyrannu cyfrannau

Dyrannir cyfrannau ar sail y cyntaf i'r felin. Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cael tystysgrifau cyfran a chofnodir eu manylion a'u taliadau mewn cofrestr cyfrannau i'w chadw gan GCE.

Nid oes unrhyw gyfyngiad daearyddol – croesawn geisiadau o'r DU a'r tu hwnt. I gymell cynifer o bobl â phosibl o'r gymuned gyfagos, rydym yn cynnal digwyddiadau hyrwyddo yn y trefi a'r pentrefi agosaf i'r safle ac wedi gosod lefel is o leiafswm cyfran ar gyfer codau post lleol.

### Aelodaeth

Daw pob unigolyn neu sefydliad sy'n cael Cyfrannau yn Aelod o GCE, gyda hawliau aelodaeth wedi'u diffinio yn y Rheolau. Y prif hawliau yw:

- Bod pob Aelod yn cael un bleidlais, ni waeth sawl Cyfran sydd ganddo
- Yr hawl i gael tâl llog blynyddol cymesur yn adenillion ar y buddsoddiad mewn cyfrannau (yn amodol ar y gwaged sydd ar gael).
- Yr hawl i ddychwelyd cyfalaf cyfrannau ar ddiwedd oes y Gosodiad (yn amodol ar asedau gwaged sydd ar gael ac unrhyw fusnes newydd GCE).
- Fel Aelod, cymhwyster i'w ethol i'r bwrdd (pan fydd yr aelod wedi cyrraedd 18 oed)

### Darpariaethau Adbrynu Cyfrannau

Ceir adbrynu cyfrannau yn unol â'r rheolau. Nid oes gan aelodau'r hawl i dynnu'n ôl gyfalaf cyfrannau ond mae gan fwrdd GCE y pŵer i ganiatáu i gyfrannau yn GCE gael eu tynnu'n ôl drwy gytundeb rhwng y bwrdd a'r aelod. Gall ceisiadau am dynnu'n ôl fod am y cyfan neu ran o'r cyfrannau sydd gan Aelod ac mae gan y bwrdd y digresiwn i gytuno i'r cais tynnu'n ôl yn gyfan neu'n rhannol. Hefyd, mae gan y bwrdd y pŵer i ddychwelyd cyfalaf cyfrannau i Aelodau yn ôl ei ddisgresiwn.

**Gallwch wneud cais am  
gyfrannau ar-lein yn  
[www.grannellcoop.org.uk](http://www.grannellcoop.org.uk) a thalu**

## Taliadau Ilog

Mae gan bob Aelod yr hawl i log cyfrannau yn amodol ar warged blynyddol, a thaliadau felly i'w rhannu'n gyfartal rhwng yr holl gyfrannau a gyhoeddwyd. Golyga hyn fod gan Aelod â 10,000 o gyfrannau un bleidlais ond bydd yn cael Ilog ar y 10,000 o gyfrannau i gyd.

Talir pob taliad Ilog yn flynyddol ar ôl y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Talir Ilog Cyfrannau ar falans cyfrif pob Aelod yn ôl cyfraddau sy'n adlewyrchu perfformiad ariannol blynyddol. Bydd y taliadau Ilog ar y cyfraddau a ddangosir ar dudalen 13 heblaw bod aelodau yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn pleidleisio dros adolygu hyn ar sail perfformiad ariannol GCE.

## Trethiant ar daliadau Ilog

Taliadau Ilog gros a wneir, a bydd y tanysgrifwyr yn gyfrifol am ddatgan yr incwm hwn ar eu ffurflenni treth ac am fod yn ymwybodol o'u sefyllfa ynghylch unrhyw eithriadau oherwydd Lwfans Cynilion Personol neu unrhyw gynllun tebyg.

## Darpariaethau os bydd Aelod yn marw

Yn unol â rheolau GCE, os bydd aelod o GCE yn marw, gall ei gynrychiolydd personol ymgeisio i dynnu'n ôl y cyfalaf cyfrannau neu drosglwyddo'r cyfrannau i unigolyn arall. Bydd dychwelyd cyfalaf cyfrannau o dan y ddarpariaeth hon yn cael ei flaenoriaethu gan y bwrdd dros unrhyw achos arall o ddychwelyd cyfalaf Aelodau, ond bydd yn amodol ar fforddiadwyedd yn unol ag unrhyw gais arall i dynnu'n ôl.

## Cymhwyster

Mae aelodaeth ar gael i unrhyw unigolyn (sy'n 16 oed o leiaf) neu unrhyw sefydliad corfforedig (h.y. unrhyw gwmni cofrestredig, cymdeithas gofrestrredig neu elusen gofrestrredig).

Os bydd sefydliad corfforedig yn ymgeisio i fod yn aelod, bydd angen i'r cais gynnwys enw cynrychiolydd enwebedig, ond gellir

newid y cynrychiolydd enwebedig yn y dyfodol drwy roi gwybod yn briodol i GCE gan y sefydliad aelod.

Nid oes unrhyw ddarpariaeth am gyd-aelodaeth nac am aelodaeth sefydliadau heb eu corffori.

## Y weithdrefn ymgeisio

Ymgeisir am gyfrannau gan ddefnyddio naill ai'r Ffurflen Gais ar ddiwedd y ddogfen hon neu'r ffurflen gais ar-lein ar y wefan.

Drwy wneud cais, mae Ymgeisydd yn cynnig tanysgrifio, yn ôl y Telerau ac Amodau hyn, i nifer y Cyfrannau a nodir, neu nifer llai felly y gellir ei ddyrannu.

Mae Ymgeisydd sy'n cael Cyfrannau yn cytuno i aelodaeth awtomatig o GCE ac i fod yn rhwym wrth ei Reolau.

Ar ôl gwneud cais, ni ellir ei dynnu'n ôl.

Cyn cwblhau Cais, dylech ystyried cael cyngor ariannol a chynghor arall priodol. Wrth lofnodi'r Ffurflen Gais, rydych yn gwneud cynnig terfynol i fynd i gontract gyda GCE. O dan Reoliadau Gwngalchu Arian, efallai bydd gofyn ichi gyflwyno tystiolaeth foddhaol o bwy ydych chi ac un o amodau'r Cynnig yw eich bod yn gwneud hynny yn ôl y gofyn. Rhaid i breswylwyr o'r tu allan i'r DU fod yn gyfrifol am sicrhau nad oes unrhyw ddeddfau na rheoliadau yn eu gwlad hwy a fyddai'n eu hatal rhag buddsoddi mewn cymdeithas yn y DU neu gael incwm wrthi.

## Amserlen y Cynnig

Agorwyd y Cynnig ar 1 Mehefin 2018 ac yn parhau felly nes tanysgrifio'n llawn iddo neu tan 14 Rhagfyr 2018; os na fydd digon o gyfalaf wedi'i godi erbyn hynny ac os nad oes unrhyw opsiynau cyllid amgen wedi'u trefnu, bydd y bwrdd yn cau'r cynnig ac yn dychwelyd arian yr ymgeiswyr. Ni fydd GCE, ei Chyfarwyddwyr na'i chynghorwyr yn gyfrifol am golli Ilog neu unrhyw fudd arall a ddiodefwyd gan Ymgeiswyr yn ystod y cyfnod y bydd GCE wedi dal yr arian.

## Gweithdrefnau pan geir cais

Cyflwynir unrhyw sieciau/drafftiau banc pan gyrhaeddant a cheir eu gwrthod os na fyddant yn clirio.

Ceir cadw Gweddill Arian Ymgeisio yn disgwyl i sieciau glirio.

Ceir gwrthod ceisiadau yn gyfan gwbl, neu'n rhannol, neu eu lleihau.

Dychwelir arian o ran unrhyw geisiadau a wrthodwyd neu a leihawyd heb fod yn hwyrach na mis ar ôl diwedd y Cynnig.

Ni fydd llog yn daladwy ar arian ymgeisio a gyflwynwyd a ddaw'n ddychweladwy. Cedwir arian ymgeisio mewn cyfrif banc pwrpasol ac ni chaiff ei ddefnyddio at unrhyw ddiben nes naill ai ei droi'n gyfranddaliadau neu ei ddychwelyd i'r ymgeisydd.

Ceir derbyn Ffurflenni Ymgeisio anghyflawn neu anghywir fel petaent yn gyflawn a chywir.

## Trefniadau prasio, masnachu a delio

Cynigir cyfrannau am eu llawn werth sef £1. Ni all gwerth ased gwaelodol pob Cyfran fod yn fwy na £1 ac ni fyddai ond yn cael ei leihau yn achos perfformiad prosiect gwael iawn. Nid oes modd masnachu na throsglwyddo'r cyfrannau.

### Talu

Os ymgeisir â'r ffurflen bapur, atodwch siec neu ddrafft banc, o gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu yn y DU, am yr union swm a ddangosir yn y blwch o dan 'cyfanswm'. Cewch hefyd dalu drwy drosglwyddiad banc (mae manylion ar y ffurflen gais). Mae opsiynau talu â siec, trosglwyddiad banc, debyd uniongyrchol, cerdyn credyd neu gerdyn debyd drwy'r ffurflen gais ar-lein.

## Amserlen

Dyma ein hamserlen ragamcanol ar gyfer y cynnig cyfrannau a'r amserlen adeiladu:

### 1 Mehefin 2018

Mehefin 2018

### Lansio'r cynnig cyfrannau

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol cyntaf y gymdeithas

1 Gorffennaf 2018

Tyrbin mewn ciw i gael Achrediad Rhagarweiniol ar gyfer y Tariff Cyflenwi Trydan gan OFGEM

### 14 Rhagfyr 2018

### Cau'r cynnig cyfrannau a chyhoeddi cyfrannau

Chwefror 2019

Dechrau'r adeiladu

Mehefin 2019

Diwedd yr adeiladu, Comisiynu'r tyrbin

Mehefin 2019

Ail Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol y gymdeithas

31 Rhagfyr 2019

Dyddiad cau'r Tariff Cyflenwi Trydan (dyddiad cau ar gyfer comisiynu)

Mehefin 2020

Trydydd cyfarfod cyffredinol blynyddol y gymdeithas i roi gwybod am ganlyniadau'r flwyddyn weithredu lawn gyntaf (2019), dyraniad cyntaf y gronfa gymunedol – ni ragwelir unrhyw log ar gyfrannau

Mehefin 2021

Pedwerydd cyfarfod cyffredinol blynyddol y gymdeithas – dyrannu cronfa gymunedol a dosbarthu'r llog cyfrannau cyntaf i'r aelodau

## Risgiau

Mae i bob gweithgaredd masnachol ei risg – ac nid yw prosiectau ynni'n eithriad.

Os caiff GCE flwyddyn wael, efallai y cewch lai o log nag a ragamcanwyd. Os bydd rhywbeth yn mynd o chwith yn y tymor hwy, efallai bydd eich cyfalaf mewn perygl.

Mae ein cyfrannau'n rhai y gellir eu tynnu'n ôl – sy'n golygu na ellir eu masnachu ond gallwch ymgeisio i'w tynnu'n ôl ar unrhyw adeg os bydd angen. Rydym wedi gwneud darpariaeth sylweddol i sicrhau hyn ond ni ellir sicrhau'n gyfan gwbl y gallu i dynnu'n ôl.

Rydym wedi gwneud pob ymdrech i leihau risgiau i'n cyfranddalwyr. Isod, crynhown y tybiaethau a'r risgiau allweddol, ynghyd â chnamau a gymerwyd gennym i'w lleihau cymaint â phosibl.

### Tybiaethau ariannol

Tybiwn gyfradd chwyddiant o 3% ar brisiau trydan a'r holl gostau, a llog o 0.5% ar adneuron banc tymor hir. Byddai cyfraddau chwyddiant is yn lleihau perfformiad (er byddent hefyd yn debygol o leihau adenillion o fuddsoddiadau amgen). Rydym wedi defnyddio ffigurau ceidwadol gan adlewyrchu gwerthoedd isel cyfredol gydag addasiad bach ar gyfer tueddiadau hanesyddol ar yr amserlen 20 mlynedd.

Tebygolrwydd: Isel. Effaith: Isel.  
Risg cyffredinol: Isel.

Lliniaru – mae'r rhagamcaniadau ariannol yn seiliedig ar ffigurau y craffwyd arnynt droeon gan gyrff annibynnol, allanol, gan gynnwys ein benthycwyr Banc Cymru, eu peirianwyr a'u cyfreithwyr, gan Sharenergy, ac ar wahân eto gan Syrfëwr Siartredig.

### Cynnig cyfrannau heb godi digon o gyfalaf

Ni fydd yr adeiladu'n mynd yn ei flaen nes cyrraedd y targed £700,000. Ni chaiff arian cyfran ei wario oni bai bod gan GCE ddigon o arian i gwblhau'r adeiladu a chomisiynu'r tyrbîn mewn pryd ar gyfer dyddiad cau'r Tariff Cyflenwi Trydan. Os na chyrhaeddir y cyfanswm gyda digon o amser i osod y tyrbîn, sy'n annhebygol, bydd ceisiadau am gyfrannau a'r arian ynghlwm yn cael eu dychwelyd i'r ymgeiswyr.

Tebygolrwydd: Isel; Effaith: Uchel.  
Risg cyffredinol: Canolig.

Lliniaru – mae GCE yn defnyddio tîm proffesiynol i helpu i farchnata'r cynnig cyfrannau ac yn dilyn esiampl nifer o brosiectau eraill sydd wedi llwyddo i godi'r swm cyfan.

### Cyflymder y gwynt

Mae rhagamcaniadau gwynt a rhagamcaniadau cynnyrch yn seiliedig ar fodelu cyfrifiadurol gan Digital Engineering [www.digital-engineering-ltd.com](http://www.digital-engineering-ltd.com) sy'n ddibynadwy ac wedi'u profi'n drwyadl. Bydd cyflymder y gwynt ar y safle'n amrywio o'r naill ddiwrnod i'r llall ac o'r naill flwyddyn i'r llall, felly mae rhagamcaniadau'n seiliedig ar gyflymder gwynt cyfartalog i'r safle. Byddai cyflymderau gwynt cyfartalog is yn y tymor hir yn effeithio ar berfformiad cyffredinol. Mae'r cyflymder gwynt cyfartalog tebygol isaf dros y tymor hir wedi'i fodelu a dangosir ei fod yn dychwelyd cyfalaf cychwynol yr Aelodau iddynt ond ychydig iawn o log os o gwbl.

Tebygolrwydd: Isel; Effaith: Isel i Uchel.  
Risg cyffredinol: Canolig.

Lliniaru – Ychydig iawn y gellir ei wneud i liniaru risg; dewisodd GCE dyrbin sy'n adnabyddus am berfformio'n dda ar safleoedd gyda chyflymderau gwynt isel ac uchel sy'n golygu ei fod yn debygol o gynhyrchu'n dda, hyd yn oed os yw cyflymder y gwynt yn is nag a fodelwyd.

### Tariff cyflenwi trydan

Os gostyngir y tariff hwn, bydd incwm yn lleihau'n briodol. Fodd bynnag, mae Llywodraethau olynol wedi cadarnhau eu hymrwymiad i gadw'r Tariff Cyflenwi Trydan ar lefelau a gontractiwyd, er gwaethaf unrhyw ostyngiad i brosiectau dilynol sy'n ymuno â'r cynllun. Mae ein tariff cyflenwi trydan wedi'i achredu ymlaen llaw, sef wedi'i sicrhau gan OFGEM ar y gyfradd a fodelwyd (1.92c/kWh) cyhyd ag y caiff y tyrbîn ei gomisiynu erbyn 31 Rhagfyr 2019.

Y risg mwyaf i'r prosiect ynghylch y Tariff Cyflenwi Trydan yw oedi wrth godi arian neu oedi yn ystod y gwaith adeiladu gan olygu y collir dyddiad cau'r Tariff Cyflenwi Trydan.

Tebygolrwydd: Isel iawn; Effaith: Uchel.  
Risg cyffredinol: Isel

Lliniaru – Mae'r gwaith codi arian a gwaith cynllunio'r gosod wedi'u hen ddechrau o'u cymharu â dyddiad cau'r Tariff Cyflenwi Trydan. Bydd yr adeiladu ei hun yn cymryd 4-6 wythnos felly mae cyfnod helaeth i godi arian. Hefyd, prif ffynhonnell y cyllid i'r prosiect yw gwerthu trydan o dan gytundeb prynu pŵer yn hytrach na'r Tariff Cyflenwi Trydan.

Pris trydan. Tybia'r rhagamcaniadau fod trydan yn cael ei werthu am bris o 5.24c drwy dariff allforio OFGEM sy'n sicr. Efallai bydd yn bosibl mynd yn uwch na hyn os gellir cael CPP am gyfradd uwch, ond y dybiaeth hon o ddefnyddio tariff OFGEM yw'r pris isaf sicr a geid.

**Amser di-fynd gormodol**

Mae'r cynnyrch ynni yn ein rhagamcaniadau yn tybio bod y tyrbîn yn cynnal lefel gymedrol o argaeledd gweithredol (95%). Er nad tyrbîn newydd mo'n tyrbîn ni, ond un wedi'i ailwampio, mae gennym gofnodion gwasanaeth llawn sy'n dangos ei fod wedi'i gynnal a'i gadw'n barhaus o dan yswiriant gwasanaethu'r gweithgynhyrchwr ac y bu ganddo argaeledd gweithredol o 97%.

Tebygolrwydd: Canolig; Effaith: Canolig.  
Risg cyffredinol: Canolig

Lliniaru: Byddwn yn mynd i gontract cynnal a chadw ataliol gyda chyflenwr Gweithredu a Chynnal a Chadw addas i sicrhau y cedwir y tyrbîn mewn cyflwr da ac y gellir ymdrin â mân ddiffygion o bell pryd bynnag y bo'n bosibl.

**Diffyg darnau sbâr neu beirianwyr gwasanaethu profiadol ar gael yn y dyfodol**

Os bydd angen darnau sbâr mawr neu anarferol, mae'n bosibl na fydd y tyrbîn yn gallu cynhyrchu am gyfnod hir tra bydd darnau sbâr yn cael eu sicrhau. Mae'r peiriant ei hun yn syml iawn ei ddyluniad a phrin iawn yw ei gydrannau y gwyddys eu bod yn achosi methiant yn gyffredin (peiriant heb focs gêr ydyw).

Tebygolrwydd: Uchel; Effaith: Uchel. Risg cyffredinol: Uchel

Lliniaru: Ledled y DU ac Ewrop mae llawer iawn o dyrbinâu Enercon E48, ac mae gan Enercon fantais ariannol fawr, a mantais sylweddol oherydd ei enw da, o ran sicrhau bod y tyrbînau hyn yn parhau i weithredu hyd y rhagamcanwyd.

Mae gofyn i gwmnïau sy'n cynnig am ddarparu contractau Gweithredu a Chynnal a Chadw naill ai ddangos eu bod yn gallu cael at ddarnau Enercon neu, os nad allant, gweithio gyda GCE i sicrhau proses ddiffwdan o archebu darnau drwy GCE sydd wedi'i chynnig dros dro gan Enercon.

Am fod llawer o dyrbinâu Enercon ar waith yn y DU, bydd galw masnachol mawr am beirianwyr profiadol i gynnig gwasanaethau cynnal a chadw ar gyfer y tyrbînau hyn, a disgwyliwn y bydd llawer o gwmnïau'n cynnig gwasanaethau cynnal a chadw hyd y gellir ei ragweld.

Ceir hefyd fwyfwy o wefannau a delwyr yn Ewrop sy'n arbenigo mewn canfod a chyfnewid darnau tyrbîn gwynt er mwyn gwasanaethu marchnad gynyddol tyrbînau ail law.

Risg diwygiedig - Tebygolrwydd: Isel; Effaith: Uchel. Risg cyffredinol: Canolig

**Costau gweithredol**

Byddai costau uwch ar gyfer gwasanaethu / gwasanaethau, gweinyddu, yswiriant ac ardrethi yn lleihau perfformiad. Mae'n amlwg yn anodd modelu prisiau ar gyfer 10 neu hyd yn oed 15 mlynedd i'r dyfodol, felly mae'r ffigurau'n seiliedig ar brisiau heddiw gan ganiatáu ar gyfer chwyddiant. Dyfynnir rhai prisiau ond nid ydynt eto'n gwbl sicr, gan gynnwys cost yswiriant gweithredol a chontract gweithredu a chynnal a chadw - a hyn er mwyn i GCE gael digon o amser i fod yn siŵr o gael y dewis gorau sydd ar gael i'r prosiect.

Tebygolrwydd: Canolig; Effaith: Isel.  
Risg cyffredinol: Isel

Lliniaru: Mae'r rhagamcaniadau ariannol ar gostau gweithredol, cymaint â phosibl, yn seiliedig ar gostau sy'n gwbl hysbys (contractau wedi'u llofnodi, dyfynbrisiau clir, neu gostau hysbys o brosiectau eraill tebyg iawn) ac yn caniatáu am gynydd costau yn unol â chwyddiant. Caniatawyd hefyd gyllid ychwanegol am gynydd costau, yn enwedig ynghylch gweithredu a chynnal a chadw, a hynny o flwyddyn chwech ymlaen. Yn ogystal, mae cronfa wrth gefn fechan wedi'i chaniatáu am bob blwyddyn i ystyried costau'n anwadalu ac i gyfrannu at gronfa fwy o faint os bydd llawer o amser di-fynd neu newid mawr mewn prisiau.

**Cynnig cyfrannau heb godi digon o gyfalaf**

Fe gafodd TAG yr hawliau datblygu i safle Fferm Ffrwd trwy brynu gan Seren Energy gyfranddaliad cyfan y cwmni SPV a oedd yn berchen ar y trwyddedau a'r caniatadau angenrheidiol. Mae'r ffaith bod GCE yn berchen ar is-gwmni yn golygu o dan Ddeddf Cydweithredol a Chymdeithasau Budd-daliadau Cymunedol 2014 na allwn hawlio'r eithriad o'r gofyniad am archwiliad cyfrifo llawn, sy'n golygu costau gorbenion ychwanegol. Ein bwriad yw trosglwyddo'r trwyddedau a'r caniatadau a'r holl drefniadau cyfreithiol eraill i'r rhiant-sefydliad (GCE), a bydd yr is-gwmni yn cael ei gau ac felly mi fydd angen gorbenion ar gyfer cyfrifon archwiliedig am y ddwy flynedd gyntaf yn unig. Credwn ei bod yn annhebygol y dylai fod unrhyw broblemau ond os nad yw'n bosibl gallai fod rhai costau ychwanegol ar gyfer cyfrifon archwiliedig blyneddol a allai leihau yr hyn sydd yn cael ei ddychwelyd.

# Ffurflen gais

(sylwch y gallwch hefyd ymgeisio ar-lein - trowch at y dolenni ar ein gwefan, grannellcoop.org.uk)

Dymunaf brynu cyfanswm o  o gyfrannau yn Grannell Community Energy am £1 yr un.  
(Isafswm o 100 cyfran yng Ngheredigion, neu godau post SA40 ac SY23, fel arall 250, mwyafswm: 100,000 of gyfrannau)

Teitl (Mr/Mrs/Ms/arall): ..... Enwau cyntaf: ..... Cyfenw: .....

E-bost:

Cofiwch roi eich cyfeiriad e-bost os oes modd er mwyn lleihau'r costau gweinyddu

Cyfeiriad Post: .....

Cod post: ..... Rhif Ffôn yn Ystod y Dydd: .....

Os hoffech brynu cyfrannau ar ran plant

Ar ben-blwydd pob plentyn a restrir isod yn 16, hoffwn dynnu nifer y cyfrannau a nodir yn y tabl isod o'r cyfrannau sydd gennyf fi ar yr adeg honno a rhoi'r nifer hwn o gyfrannau newydd yn enw'r plentyn.

Enw llawn y plentyn	Dyddiad geni	Nifer o gyfrannau

Os oes mwy na 2 o blant, defnyddiwch ddalen o bapur ar wahân. Byddwn yn cysylltu â chi ychydig cyn pen-blwydd y plentyn i gadarnhau'r cyfarwyddyd ac i gael manylion ychwanegol i'w cofrestru ar gyfer y plentyn.

Os ydych yn ymgeisio ar ran sefydliad corfforedig, nodwch hefyd:

Enw'r sefydliad: ..... Math o sefydliad: .....

Cyfeiriad y sefydliad: .....

Rhif cofrestru: ..... Cofrestrwyd gyda: Thŷ'r Cwmnïau / FCA / y Comisiwn Elusennau

Eich Swydd yn y Sefydliad: .....

Rhaid eich bod wedi'ch awdurdodi i lofnodi ar ran y sefydliad. Rhowch wybod am y trefniant hwn gan y corff llywodraethu gyda'r ffurflen gais hon.

Ticiwch y ddau flwch isod i gadarnhau:

<input type="checkbox"/> (gofynnol)	Rwyf wedi darllen y Ddogfen Cynnig Cyfrannau ac nid wyf yn dibynnu ar unrhyw ffynhonnell arall o wybodaeth am y Gymdeithas. Rwyf dros 16 ac yn gymwys i ymgeisio am gyfrannau. Rwyf wedi ystyried a oes angen imi gael cyngor ariannol neu gyngor arall. Rwy'n awdurdodi'r Gymdeithas i wneud ymholiadau i gadarnhau cymhwysra'r Cais hwn os yw'n ofynnol. Deallaf y gallai'r cais hwn gaelel dynnu'n ôl os cyhoeddir dogfen cynnig atodol, ond nid fel arall, a deallaf y bydd yn ffurfio contract cyfreithiol ar Delerau ac Amodau'r ddogfen gynnig os a phan fydd y Gymdeithas yn ei dderbyn.
<input type="checkbox"/> (dewisol)	Hoffwn gael Cylchlythyr Sharenergy gyda gwybodaeth am brosiectau Ynni Cymunedol eraill (nid mwy nag un e-bost y mis).

Llofnod: ..... Dyddiad: .....

SIEC. Os ydych yn talu â siec, gwnewch hi'n daladwy i Grannell Community Energy Limited a chroesi a/c Payee.

TROSGLWYDDIAD. Os ydych yn talu drwy drosglwyddiad, defnyddiwch y manylion hyn: Cod didoli: **30-94-85** Rhif y cyfrif: **1860 5360**

**Defnyddiwch lythrennau cyntaf enw'r Ymgeisydd a'i god post yn gyfeirnod os ydych yn talu â throsglwyddiad banc, i'n helpu i adnabod eich taliad.**

Anfonwch y ffurflen hon wedi'i llenwi i Grannell Community Energy, The Pump House, Coton Hill, Shrewsbury, SY1 2DP neu gellir ei lofnodi, ei sganio a'i hanfon mewn e-bost i admin@sharenergy.coop

# Ein partneriaid

Roedd y dyddiadau cau i'r prosiect hwn yn gaeth iawn am fod angen comisiynu mewn pryd i fodloni telerau ein hachrediad rhagarweiniol Tariff Cyflenwi Trydan. Dim ond oherwydd brwdfrydedd a chydweithrediad ein sefydliadau partner y cyrhaeddwyd y dyddiadau cau hyn.



## Banc Datblygu Cymru

Cafwyd benthyciadau gan Fanc Datblygu Cymru sy'n ein caniatáu i fwrw ymlaen cyn cyrraedd y gost adeiladu lawn o'r cynnig cyfrannau.



## Ynni Lleol

Mae cynllun Grannell Community Energy wedi cael cymorth, cyllid benthyciad a chyllid grant gan Lywodraeth Cymru drwy ei gwasanaeth Ynni Lleol. Mae gwasanaeth Ynni Lleol Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth ariannol a thechnegol i helpu mentrau cymdeithasol a busnesau bach a chanolig ledled Cymru i ddatblygu eu cynlluniau ynni adnewyddadwy eu hunain.



## Sharenergy Co-operative

Mae Cymdeithas Gydweithredol Sharenergy yn helpu grwpiau cymunedol ledled y DU i sefydlu eu generaduron ynni adnewyddadwy eu hunain a bod yn berchen arnynt. Mae Sharenergy wedi cefnogi dros 40 o gynigion cyfrannau cymunedol llwyddiannus ac yn darparu gwasanaethau gweinyddol i fwy na 30 o grwpiau ynni cymunedol.

### Rydym yn ddiolchgar hefyd i'r canlynol am eu cymorth a'u gwaith hyd yma:

**Our Footprints** – Perchenogion, Peiriannydd a Rheolwr Prosiect.

**naet-Co Ltd** – Cymorth tendro a chyngor risg i'r bwrdd.

**Second Wind** – Cymorth gydag archwilio tyrbîn tramor, prynu, a logisteg.

**MFG Solicitors** – Cyngor cyfreithiol a chyd-drafodaethau.

**Y Teulu Evans** – heb y teulu hwn, ni fyddai gennym brosiect o gwbl, ond, yn fwy na dim, diolch am eu cefnogaeth, eu hamynedd a'u gwaith caled i'n helpu i gyrraedd y man hwn.

**Llawer o gynghorwyr a grwpiau cymunedol lleol** – rhy niferus i sôn amdanynt, ond sydd wedi dangos yn eu ffordd eu hunain y gallant weld y budd a geir yn sgil y prosiect hwn yn y gornel hon o Geredigion.

**Cysylltwch â ni:  
Ar gyfer pob ymholiad, cysylltwch â  
Sharenergy ar 0800 0434133  
neu drwy [grannellcoop.org.uk](http://grannellcoop.org.uk)**

**Mae ein gwefan yn  
[grannellcoop.org.uk](http://grannellcoop.org.uk)**

**Mae Grannell Community Energy yn Gymdeithas Gofrestredig wedi'i  
chofrestru gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol.  
Ein rhif cofrestredig yw 7447**

